

## Cofion

Parhawn i gofio yn ein gweddiâu y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar, a chyflwynwn hwy oll yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn. Mae sawl un arall sydd heb fod cystal ei iechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt hwythau hefyd yn yr un modd.

## Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn eich cyfraniad tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd, os gwelwch yn dda.

**Nodyn i'r Trysoryddion:** A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') erbyn Ebrill 11eg, os gwelwch yn dda?

## Ysgriflen mwy o faint?

Rydym eisoes yn argraffu copïau o Llais Bro Aled sydd â'r ysgriflen naill ai **ddwy** neu **bedair** gwaith yn fwy o ran maint ar gyfer sawl un o'r darllenwyr. Os ydych chi, neu os gwyddoch am unrhyw un sydd yn ei chael yn anodd darllen Llais Bro Aled yn y maint fel ag y mae, plis gadewch i Mair wybod. Gallwn argraffu fel bo'r galw ac anfon y copïau hefo'r pecynnau Llais Bro Aled sy'n dod i'r eglwysi bob wythnos, neu wneud trefniant arall yn ôl y gofyn.

## I ddod

- **CYMDEITHAS CHWIORYDD BRO ALED** – Noson o dan arweiniad Sarah Dafydd nos lau, Mawrth 30ain yng Nghapel Llanefydd am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod nos lau, Mawrth 30ain yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00 pryd y bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Y Parchg. Ddr Geraint Tudur a'r Dr Hefin Jones (Caerdydd) yn rhannu yr hyn a ddysgwyd yn yr Arolwg a wnaed o'r Cyfundebau. Amcan eu hymweliad yw trafod ein sefyllfa, cadarnhau a chryfhau ein gwaith, a darganfod y ffordd orau i'r Cyfundeb fedru symud ymlaen.
- **LLANW** – Mae'r wyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Ebrill 17eg–20fed. Mwy o fanylion yn y taflenni gwybodaeth sydd ar gael, neu ewch i'r wefan [llanw.org](http://llanw.org).
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 25ain am 7.30 yng nghwmni y Parch. Hywel Meredydd. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19<sup>eg</sup> Mawrth 2017

Darlleniad y Dydd

Salm 61:1-8

(BCND tud.523 / BCN tud.478)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i chi i gyd i'r oedfaon bore 'ma. Gofynnwn y bydd yr Arglwydd yn agor ein calonnau heddiw i dderbyn ei air, ac i ddyfnhau ein perthynas gydag Ef. Gweddiwn y byddwn yn cael noddfa yng Ngair Duw a chymdeithas gariadus gyda'i bobl Ef.

Mae'r Beibl a'n profiadau ni o fywyd yn cadarnhau nad yw bywyd yn fêl i gyd o bell ffordd. Gwyddom am sefyllfaoedd digon dyrys a chyfnodau poenus a ddaeth i'n rhan ni, ein teuluoedd neu'n cyfeillion. Wrth ddeffro yn y bore, gallwn deimlo fod o'n cymryd ymdrech annaturiol i adael amddiffynfa'r matras, i ddod o'r gwely a wynebu'r dydd. Ac ar brydiau byddai'n hawdd i ni feddwl y bydd hi'n dipyn o gamp i ni frwydro ymlaen ar ein pen ein hunain, heb wybod beth sydd gan y dydd i'w gynnig. Gall nifer fawr o ffactorau ddylanwadu'n drwm arnom o siomedigaethau a cholledion i bwysau gwaith a'r glaw trwm. Ydy ein calon ni hefyd yn cael ei lethu gan bwysau bywyd?

I sefyllfa fel yma y cawn ein cyflwyno yn ein darlleniad ar y cyd yr wythnos yma, Salm 61. Wrth ddarllen, rydym yn teimlo bron ein bod yn clustfeinio ar sgwrs bersonol iawn rhwng Dafydd y Salmydd, a'r Arglwydd Dduw. Mae'n galw a galw ar Dduw o ben draw'r byd i wrando ar ei weddiâu. Mae'n debygol fod y Salm yma wedi ei ysgrifennu pan oedd Dafydd yn ffoi am ei fywyd oddi wrth unai y brenin Saul, neu ei fab ei hun, Absalom. Pan oedd popeth yn ei erbyn, a nifer fawr o bobl yn ceisio ei ladd, roedd Dafydd yn troi at yr Arglwydd mewn gweddi. Sylwch sut iaith mae'n ei ddefnyddio wrth weddio ar Dduw. I ble mae eisiau cael ei arwain? Yn aml heddiw y temtasiwn ydy ein bod ni'n gweddio am fywyd haws, neu am gael ein harwain allan o'r frwydr neu lanast sy'n ein hwynebu ni. Rydym yn rhedeg at yr Arglwydd er mwyn iddo newid ein sefyllfa yn ôl ein dealltwriaeth ni o'r sefyllfa. Ond sylwch sut iaith mae Dafydd yn ei ddefnyddio: "*Pan dw i'n anobeithio, arwain fi at graig uchel ddiogel. Achos rwy'ti'n le saff i mi fynd; yn gaer gref lle all fy ngelynyion ddim dod. Gad i mi aros yn dy babell am byth, yn saff dan gysgod dy adenydd.*" (Adn. 3-4) Pan mae Dafydd mewn argyfwng, mae'n mynd at yr Arglwydd gan wybod ei fod yn le saff i fod. Mae'n dweud "Mae'r sefyllfa dwi'n ei brofi yn ddirifol, ond rwy'ti yn dda, yn gadarn ac yn gysur i mi". Dim ots beth sy'n digwydd ar y ddaear o'n cwmpas ni, does dim all wanhau'r Duw tragwyddol. Os awn ni ato yn edifeiriol, mae'r sicrwydd gawn ni o gael perthynas gydag o ymhell tu hwnt i unrhyw beth allem ni ei gael ar y ddaear. Ymhob storm fydd yn ein bywyd ni, mae gennym ni angor sydd yn fwy na digon cryf i'n cadw ni, wnaiff byth symud na'n gadael ni i fynd.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 9:51-56 (BCND tud.76 / BCN tud.69)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinig yr oedfa gan Gwion, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 22<sup>ain</sup> ➤ **'Pawb at y peth y bo? Ymateb y Cristion i gredoau gwahanol'** – cyfarfod i'r Fro yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- Iau – 23<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 24<sup>ain</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 25<sup>ain</sup> ➤ **'Canwch Gân Newydd i'r Arglwydd...'** – Gweithdy caneuon Cymraeg ar gyfer addoliad cyfoes yng Ngholeg y Bala o 10.00 – 4.00. Mae'n addas i rai sydd â rhywfaint o brofiad, a'r di-brofiad, y rhai sy'n gerddorol, neu'n dda efo geiriau. I gofrestru, cysylltwch ag Andy Hughes ar 01678 530347 / [saintygymuned@btinternet.com](mailto:saintygymuned@btinternet.com).
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinig yr oedfa gan Rhodri a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith ac yn gweinyddu'r cymun yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00, ac i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10. Yna, yn y prynhawn, bydd rhai o'r aelodau yn mynd i'r Hen Ficerdy, Pandy Tudur i gynnal gwasanaeth.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 10.00 (sylwch ar yr amser).
- Mercher – 22<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Mawrth 19eg**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**